Clecs Casnewydd

Rhifyn rhif 2
Tymor y Gwanwyn 2013

Pleidiol Wyf I'm Gwlad!

Uchafbwynt Wythnos Iaith a diwylliant oedd yr Eisteddfod. Daeth y seremoni â wythnos llawn traddodiadau a diwylliannau Cymreig i ben.

Bu Cadog, Llanofer a Islwyn yn cystadlu wth ganu o flaen beirniaid. Cafwyd lleisiau swynol, arweinwyr côr doniol ac ambell i siglwr pen ôl!

Cafodd cystaleuaeth ysgrifennu barddoniaeth blwyddyn 6 ei feirniadu gan Mr Jonathan Richards o Ysgol Gyfun Gwynllyw.

Ysgrifennodd aelodau blwyddyn 6 gerdd yr un yn seiliedig naill ai ar 'Rhyfeddodau' neu 'Caethwasiaeth'. Dewiswyd ffugenw gan bawb er mwyn gallu beirniadu'r cerddi'n gyfrinachol. Yr enillwyr balch oedd: 3ydd Megan-Rose Howarth; 2il Dylan Pollock; 1af Luca Hoole. Gwisgwyd clogyn y bardd gan Luca wrth iddo eistedd yng nghadair barddol yr ysgol. Llongyfarchiadau enfawr i'r tri ohonynt.

Cafodd y gân gadeirio traddodiadol ei chanu gan athrawon yr ysgol gyda llais arbennig Mr William Locke –myfyriwr yn yr ysgol . Er iddo berfformio o flaen cynulleidfa yn y miliynau ar y teledu fel aelod o Only Boys Aloud, meddai Mr Locke mai dyma'r mwyaf nerfus roedd wedi teimlo erioed!

Dathlwyd gweithgareddau Cymraeg ar draws yr ysgol trwy gydol yr wythnos. Bu disgyblion y dosbarth Meithrin yn brysur yn creu llwyau caru. Gwnaeth disgyblion y derbyn baratoi cawl.

Bu blwyddyn 1 yn creu ffeil ffeithiau am Dewi Sant ac yn coginio pice ar y maen. Roedd dagrau wrth i flwyddyn 2 darllen stori drist am Gelert, ci ffyddlon Tywysog Llywelyn. Darllenwyd stori am ynys hudol Morgana ym mlwyddyn 3 yn ogystal â chreu teisen lap. Astudio stori Arthuraidd am Sabrina gwnaeth blwyddyn 4. Darllenwyd hanes Myrddin a Gwenhwyfar ym mlwyddyn 5.Dysgodd blwyddyn 6 sut wnaeth Myrddin darganfod ei hud.

Cacen goch gwych!!

Meithrin

Mae plant y Meithrin wedi cael llawer o hwyl y tymor yma ar ôl darllen 'Y bachgen bach toes'. "Er i chi redeg nerth ddwy goes, daliwich chi byth y bachgen bach toes' meddai ef. Dim problem i ddisgyblion y meithrin oedd yn barod gyda cynllun gwych! Ysgrifennodd y disgyblion rhestr siopa cynhwysion i Miss Williams er mwyn coginio bechgyn bach toes eu hun! Defnyddiod y disgyblion rhesin i addurno y bechgyn bach toes gyda llygaid a botymau. 'Roedd y plant yn gyffrous iawn i goginio bechgyn bach toes eu hun. Cafon nhw llawer o hwyl a roedd y bisgedi y flasus iawn!" medai Miss Williams.

Rydyn ni'n mynd i hela arth!!

Derbyn

Tymor diwethaf roedd disgyblion y Derbyn yn ein rhybuddio am ddeinosoriaid yn cuddio ar diroedd yr ysgol. Wel gwyliwch chi achos nawr maen rhaid i ni wylio am eirth hefyd!! Ar ôl darllen 'Elen benfelen a'r tri arth' a 'Rydyn ni'n mynd i hela arth' aeth y plant i hela arth o gwmpas yr ysgol. Daeth y plant o hyd i un mawr yn cuddio yn y Waun Wyllt! Hyd yn hyn does neb arall wedi gweld un ond peidiwch becso os oes rhagor yn cuddio. Ar ôl ymarfer creu posteri 'Yn eisiau' i ddarganfod Elen benfelen bydd disgyblion y derbyn yn fodlon creu rhai ar gyfer darganfod yr eirth hefyd!

Cywion Cyffrous!

Blwyddyn 1

Cafodd disgyblion blwyddyn 1 syndod ar ôl darllen stori 'Jac a'r goeden ffa' wrth i'r Cawr Mawr ysgrifennu yn gofyn i ddod am ymweliad i'r ysgol! Roedd y Cawr Mawr yn eithaf haerllug ac mae wedi cadw'r disgyblion yn brysur iawn yn cwblhau sawl sialens iddo ers ei hymweliad gan gynnwys creu pecynnau hadau ac ysgrifennu cyfarwyddiaau plannu ei ffa hud. Cafodd y disgyblion llawer o hwyl yn addurno potiau ac yn plannu'r haau i fynd adref. Mae'r hyn wnaeth y disgyblion ddysgu am adar yn ystod y tymor wedi bod yn defnyddiol wrth iddynt ofalu am gywion bach wnaeth ddeor yn yr ysgol yr wythnos diwethaf. Roedd cyffro mawr ar draws yr ysgol wrth i'r cywion ymweld â phob dosbarth er mwyn i bawb cael cwtch!

Pwy sydd yn cuddio o dan y bont!

Blwyddyn 2

Roedd disgyblion blwyddyn 2 bendant wedi'u hysbrydoli ar ôl darllen 'Y 3 gafr bach fflwff' y tymor hwn! Roedd y plant wedi creu pypedau o'r cymeriadau ac wedi perfformio sioeau pyped o flaen setiau a wnaethand ddylunio eu hunain! Roedd y disgyblion hefyd wedi adeiladu pontydd i'r 3 gafr bach fflwff i groesi'r afon yn ddiogel! Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn creu mapiau stori ac yn actio'r stori eu hunain. Mae'r plant yn defnyddio popeth maent wedi dysgu er mwyn ysgrifennu storïau eu hunain gyda chymeriaau gwahanol. " Rydw i'n ysgrifennu am 3 mochyn bach sydd eisiau croesi'r bont ond mae nhw methu achos mae blaid mawr cas yn byw o dan y bont", meddai Alfie. Rydyn ni'n yn gyffrous i ddarllen y straeon yma yn barod!!

Bwyd y Rhufeiniaid!

Blwyddyn 3

Mae Blwyddyn 3 wedi bod yn brysur yn dysgu mwy am y Rhufeiniaid y tymor yma. Mae'r disgyblion wedi bod yn dysgu sut oedd y rhufeiniaid y byw yng Nghymru ac yn Rhufain. "Roedd y Rhufeiniaid yn gwneud bara gyda mêl, blawd a dŵr poeth" meddai Elijah. Diolch y fawr i Mr Marshall a ddaeth i helpu'r disgyblion i goginio bara Rhufeinig eu hunain – blasus iawn!! Yn ogystal â choginio bara mae'r disgyblion wedi bod yn creu siapiau geometrig yn eu gwersi mathemateg.

Tŷ i'r Titw Tomos!

Blwyddyn 4

Mae blwyddyn 4 wedi bod yn astudio ac yn creu gwaith ffeithiol ar yr ystlumod gwahanol sydd yn ein byd. "Mae ystlumod yn cysgu wyneb i waered" meddai Omar. Daeth yr RSPB i fewn i weithio gyda disgyblion blwyddyn 3 a 4 i greu cartrefi i'r adar yn ein gerddi ar dir yr ysgol. Ychwanegodd Omar "Fe wnaethon ni nhw mas o flociau mawr o bren a hoelion igadw'r to ymlaen. Hefyd, fe wnaethon ni gylch ym mlaen y tai fel drws. Rwy'n gobeithio y bydd yr adar yn eu hoffi cymaint â ni!"

Bywyd o dan ddaear!

Blwyddyn 5

Mae blwyddyn 5 wedi bod yn dysgu am fywyd yn Oes Fictoria. Maent wedi troi eu dosbarth i fewn i wyrcws Fictorianaidd ac maent hyd yn oed wedi cael ymweliad gan Mr Bumble, rheolwr y wyrcws. Maent hefyd wedi bod ar daith i grombil 'Big Pit'. Roedd rhai o'r plant ag ofn y tywyllwch! Ond sbardunodd y profiad iddynt fedru iniaethu â phlant Oes Fictoria os nad oeddent yn gallu fforddio mynd i'r ysgol. Aethant wedyn ati idrafod problem llafur plant heddiw a bod rhai cwmniau mawr yn talu ceiniogau er mwyn sicrahu elw. Roedd yn agoriad llygad i rai.

Hugo'n hypnoteiddio!

Blwyddyn 6

Mae blwyddyn 6 wedi bod yn astudio 'The Invention of Hugo Cabret' llyfr dirgelwch yn cynnwys y cymeriad enwog a gwneuthurwr ffilm go iawn – Georges Melies. Cawsant gyfle i wylio rhai o'i ffilmiau arbennig megis 'A Trip to the Moon o 1902. Gwnaethom hefyd wylio clipiau doniol gan Charlie Chaplin, Harold Lloyd, Laurel a Hardy a Buster Keaton. Er mai ffilmiau du a gwyn oedden nhw a heb sain ar y cyfan, wnaeth y plant fwynhau'r profiad o wylio ffilmiau cynnar. Gwnaeth y plant hefyd ysgrifennu am eu bywydau dychmygol fel taflynydd ffilmiau a'r holl bethau anhygoel yr oedden nhw wedi eu gweld yn ystod eu bywydau. Roedd yr ysgrifennu o safon uchel tu hwnt.

Celf

Mae ein harlunwyr wedi bod yn hynod o brysur y tymor hwn yn creu darnau ac arlunio ar gfer yr Eisteddfod. Y thema y flwyddyn hon oedd 'Patryma ym myd natur' ac roedd nifer o enillwyr yn dod o Ysgol Casnewydd. Llongyfarchiadau mawr i Benjamin Bradshaw, Morgana Davies, Luke Davies a Liteesha Hughes a ddaeth yn gyntaf yn eu categoriau. Llongyfarchiadau hefyd i Maisy Evans, Nadia Iqbal, Megan Shergold, Jemima Bradshaw Jasmine Butler Bright, Chloe James and Owain Jones a enillodd wobrau ail a thrydydd am eu gwaith. Mae'n rhaid canmol pawb fu'n gweithio mor galed i greu cyfanweithiau anhygoel a diolch yn fawr i'r rhieni ac athrawon a fu'n helpu'r plant gyda'u gwaith. Bydd y gwaith byddugol nawr yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Sir Benfro. Pob lwc i bawb!

Eisteddfod

Llongyfarchiadau mawr a DIOLCH o waelod calon i'r disgyblion ac aelodau staff sydd wedi bod wrthi yn ymarfer yn ystod amser chwarae, amser cinio a hyd yn oed ar ôl ysgol yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Yn y cystadlaethau lleol ar Fawrth yr 2ail yng Nglanafon, perfformiodd yr ysgol yn arbennig o dda gyda'r canlynol yn llwyddo: daeth Carys Baker a Ellie Reynolds yn gyntaf am ganu deuawd, bu Carys Baker hefyd yn fuddugol ar yr Unawd Alaw Werin, daeth Ellie Reynolds yn 2ail am ganu Unawd i flynyddoedd 5 a 6, cafodd Caitlin Sykes yr 2ail wobr am ganu'r Unawd i flynyddoedd 1 a 2, daeth Cerian Baulch a Ffion Lywelyn yn 3ydd am ganu deuawd a daeth ein grwp llefaru yn gyntaf! Diolch hefyd i Ieuan Hancock, Carmen Thomas, Caitlin James , Sienna Stone, Tia Edwards , Mali Edwards , Megan – Rose Howarth, Rebecca a Evelyn O'Hara a Jemima Bradshaw am gystadlu. Mae'r rhai fu'n gyntaf neu'n ail yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Sir a gynhelir yn Ysgol Cwm Rhymni ar Fawrth y 16eg.

Y Brodyr Gregory

Cafodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 lawer o hwyl pan ddaeth y Brodyr Gregory a'u sioe lwyfan i'r ysgol. Darganfyddon ni bod Mrs Parry yn gallu symud yn dda!

NSPCC

Daeth yr NSPCC aton ni i drafod gwaith yr elusen. Dangoson nhw enghreifftiau o blant oedd wedi gweld eu bywydau'n cael eu trawsnewid o ganlyniad i waith yr elusen. Gwnaeth y Cyfnod Sylfaen dawns noddedig a gwnaeth Cyfnod Allweddol Dau prawf sillafu noddedig er mwyn codi arian ar gyfer yr elusen.

Hwyl gyda'r helyg!

Gwnaeth y Cyngor Eco gydweithio â thîm Cynnal a Chadw'r Tir o dan arweinyddiaeth Natalie Waller er mwyn tacluso a thwtio ein Twnel Helyg. Y sialens oedd i ddarganfod canghennau o wahanol meintiau a'u rhoi mewn trefn ar gyfer ymweliad Cwmni Willow ym mis Ebrill. Ein targed ydy creu delw o helyg ar gyfer ein gerddi. Roedd yn ddiwrnod hynod o oer ond fe wnaeth y plant ddal ati a mwynhau gweithio yn yr awyr agored!

Rydyn ni'n ♥ Harriet!

Hoffem groesawu Harriet Symonds yn ol i flwyddyn 4. Cafodd hi driniaeth yn yr ysbyty wedi problemau yn ymwneud â'i chalon . Fel modd o ddiolch i'r rheiny a wnaeth ei helpu, cawsom ddiwrnod 'Rock up in Red' er mwyn codi arian ar gyfer Sefydliad y Galon. Codwyd £327.87 a fydd yn mynd tuag at mwy o bobl sy'n diodde o broblemau yn ymwneud a'r calon yng Nghymru. Diolch ichi gyd am eich cyfraniadau.

Trwynau Coch

Dydd Gwener y 15fed o Fawrth daeth pawb i'r ysgol mewn coch neu mewn gwisgoedd doniol. Codwyd arian a fydd yn gwella safon byw pobl ym Mhrydain ac yn Affrica.

Pori mewn Llyfrau

Roedd hi'n Ddiwrnod Y Llyfr ar Fawrth y 7fed a gwisgodd pawb fel eu hoff gymeriadau o lyfrau. O Rala Rwdins iMinnie the Minx neu at Gangster Grannie at Mrs Wishy-Washi, roedd yn ddiwrnod lliwgar iawn!

Cornel y Campau

Medli o fedalau

Mae'r sesiynau hyfforddi sydd yn cael eu cynnal bob nos Fercher yn gwella perforrmiad tim rygbi'r ysgol. Enillodd y bechgyn bedwar gem a chael un gêm gyfartal yng nghystadleuaeth Gwanwyn Casnewydd cyn iddynt golli'n anffodus i Marshfield yn y ffeinal. Chwaraeodd y bechgyn yn dda mewn gêm gyfeillgar yn erbyn Pwll Coch. Er i Pwll Coch ennill y gem, gwnaeth y bois chwarae'n dda yn erbyn tim cryf.

Mae'r tim gymnasteg hefyd wedi bod yn cadw'n brysur y tymor hwn, gan deithio i Aberystwyth i gystadlu yng nghystadleuaeth cenedlaethol yr Urdd. Gwnaeth y tim yn dda iawn ond yn anffodus ni enillon nhw unrhyw fedalau y tro hwn.

Diolch yn fawr iawn i Miss Davies a Mr Taylor am eu holl gwaith caled gyda'r timau yma.

Mae'n bleser mawr llongyfarch disgyblion am lwyddo mewn chwaraeon y tu allan i'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i Oliver Morgan am lwyddiant ei dim pel-drioed, Newport School's district, sydd wedi cyrraedd rowndiau terfynol Ffeinal Cymru Gyfan.

Fe ddaethTaiya Williams o flwyddyn 1 yn gyntaf mewn pum categori gwahanol mewn cystadleuaeth ddawns gafodd ei threfnu gan ei hysgol ddawns. Daeth hi'n ail mewn pedwar categori ac ennill tlws anferth. Da iawn Taiya!

Mae criw o ddisgyblion blwyddyn 6 wedi llwyddo yn y treialau i ymuno a thim Rygbi Rhanbarthol Casnewydd. Llongyfarchiadau i Lewis Bates, Luca Hoole, Dylan Pollock, Ieuan Jones a Harri Lloyd-Evans.

Mae hefyd gennym drampolinwyr! Mae Chloe James a'i chwaer Ellie wedi bod yn bownsio yn uchel ac yn ennill trlysau mewn cystadleuaeth cenedlaethol.

Unwaith eto, diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu haelioni yn ariannu'r cylchlythyr hwn ac am drefnu nifer o weithgareddau yn ystod y tymor. Os fyddai unrhyw un â diddordeb mewn ymuno â'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon, mae'r ffurflenni ymaelodi ar gael yn y swyddfa.
Cofiwch hefyd bod diwrnod hyfforddi ar Ddydd Llun 8fed o Ebrill, felly plant yn ôl ar y 9fed.
Golygyddion y bennod hon:
Erin Roberts, Willow Rees, Ellie Robinson, Tessa Curtis, Iestyn Bryant, Cerian Baulch, 6a, Ellie Spring, Abigail Corten and Elizabeth Schaufel 6b.